# Y Bwrdd Rheoli

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Gynadledda 4B – Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 20 Mehefin 2016** |
| Amser: | **13.00 – 14.30** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: MB (06-16)

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Claire Clancy (Prif Weithredwr a Chlerc) (Cadeirydd)**<br>**Adrian Crompton (Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad)**<br>**Anna Daniel (Pennaeth Trawsnewid Strategol)**<br>**Non Gwilym (Pennaeth Cyfathrebu)**<br>**Nia Morgan (Pennaeth Gwasanaethau Ariannol)**<br>**Mair Parry-Jones (Pennaeth y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi)**<br>**Kathryn Potter (Pennaeth y Gwasanaeth Ymchwil)**<br>**Mike Snook (Pennaeth Pobl a Lleoedd)**<br>**Craig Stephenson (Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Comisiwn)**<br>**Sulafa Thomas (Pennaeth Gwasanaethau'r Comisiwn)**<br>**Chris Warner (Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth)**<br>**Siân Wilkins (Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau)**<br>**Lowri Williams (Pennaeth Adnoddau Dynol)** |
| Staff y Pwyllgor: | **Liz Jardine (Ysgrifenyddiaeth)** |
| Eraill yn bresennol: | **Leanne Baker, Pennaeth Dros Dro Gweithrediadau Adnoddau Dynol, Iechyd Corfforaethol a Recriwtio** |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a datganiadau o fuddiant

Cafwyd ymddiheuriadau gan Elisabeth Jones (Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol), Mark Neilson (Pennaeth TGCh), Dave Tosh (Cyfarwyddwr Adnoddau y Cynulliad) a Gareth Watts (Pennaeth Llywodraethu ac Archwilio Dros Dro).

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

## 2 Nodyn cyfathrebu â staff

Bydd Adrian Crompton yn drafftio nodyn ar drafodaeth y Bwrdd Rheoli ar gyfer y dudalen newyddion.

## 3 Cofnodion y cyfarfod diwethaf - 12 Mai

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod y Bwrdd Rheoli a gynhaliwyd ar 12 Mai yn gofnod cywir.

## 4 Rheoli Absenoldeb

Daeth Leanne Baker i'r cyfarfod i drafod y cyfraddau absenoldeb yn fanwl gyda'r Bwrdd Rheoli, beth yw sefyllfa'r Cynulliad o'i gymharu â'r sefyllfa ehangach o ran absenoldeb ac argymhellion ar reoli absenoldeb. Er bod y lefel yn is nag yn y sector cyhoeddus, mae absenoldeb oherwydd salwch wedi bod yn cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, ac iechyd meddwl yw'r prif reswm dros salwch hirdymor. Cytunodd y Bwrdd ei bod yn bwysig iawn rheoli absenoldeb yn effeithiol a chefnogi iechyd a llesiant staff. Gallai absenoldeb oherwydd salwch gyfrannu at ddiffyg morâl ymysg staff ac, o bosibl, effeithio ar safonau gwasanaeth, yn ogystal â bod yn gostus.

Trafododd y Bwrdd sut y mae polisïau absenoldeb yn cael eu cymhwyso ar draws y sefydliad a phroblemau canfyddedig. Awgrymwyd y gellid mireinio data rheoli ar gyfer Penaethiaid ymhellach i'w galluogi i nodi'r materion o bwys a deall pam mae absenoldebau wedi cynyddu. Ystyriodd y Bwrdd yr argymhellion yn fanwl, gan gytuno ar y canlynol:

- byddai hyfforddiant ychwanegol ar reoli presenoldeb yn fuddiol, ond gan dargedu meysydd lle ceir problemau, gan sicrhau bod cyfrifoldebau'r unigolyn yn glir, fel gweithiwr ac fel rheolwr;

- cynnig cymorth penodol, drwy godi ymwybyddiaeth, a darparu hyfforddiant, pecyn cymorth ac arweiniad, i gryfhau gallu rheolwyr i ymdrin ag absenoldebau'n fwy effeithiol;
- codi ymwybyddiaeth o fesurau ataliol, fel mentrau llesiant, gyda chynllun hyfforddiant peilot posibl i helpu rheolwyr i ddeall materion iechyd meddwl; ystyried ymestyn cymorth iechyd galwedigaethol presennol;
- darparu data mwy manwl i Benaethiaid Gwasanaeth;
- ystyried a allwn gefnogi rhai â chyfrifoldebau gofalu yn fwy effeithiol, gan gynnwys drwy bolisïau presennol ac a oes modd rhoi cymorthdaliadau mewn achosion eithriadol;
- ystyried ffyrdd o annog a chefnogi staff i ysgwyddo'r cyfrifoldeb am eu llesiant eu hunain o safbwynt gwaith;
- sicrhau bod cefnogaeth yn cael ei rhoi i reolwyr ymdrin yn brydlon ac yn sensitif â materion iechyd – pa un a yw'n ymwneud ag iechyd neu absenoldeb – a sicrhau cydbwysedd rhwng cefnogi'r unigolyn a disgwyl iddo ef neu hi allu cyflawni ei waith;
- defnyddio FiYw i greu rhybuddion awtomatig ar gyfer cyflogeion a rheolwyr, er enghraifft, i atgoffa rheolwyr i gadw mewn cysylltiad â staff absennol, cynnal cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith neu gau achosion absenoldeb.

Mae'r tîm Adnoddau Dynol yn fwy na pharod i ddod i gyfarfodydd tîm neu Wasanaeth i drafod hyn i gyd ymhellach.

## 5 Seiber-ddiogelwch

Cytunodd y Bwrdd i neilltuo cyfarfod i drafod rheoli absenoldeb, felly gohiriwyd yr eitemau eraill tan agenda cyfarfod mis Gorffennaf.

## 6 Strategaeth Archif

Cytunodd y Bwrdd i neilltuo cyfarfod i drafod rheoli absenoldeb, felly gohiriwyd yr eitemau eraill tan agenda cyfarfod mis Gorffennaf.

## 7 Ffurflen Asesu Risg - Newidiadau Uwch-reoli

Cytunodd y Bwrdd i neilltuo cyfarfod i drafod rheoli absenoldeb, felly gohiriwyd yr eitemau eraill tan agenda cyfarfod mis Gorffennaf.

**Cloi'r cyfarfod**

## 7 Unrhyw Fusnes Arall

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd Rheoli ar 14 Gorffennaf, ar ôl y diwrnod cwrdd i ffwrdd ar 8 Gorffennaf i drafod yn fanwl yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r Cynulliad a'r Comisiwn ar ddechrau'r Pumed Cynulliad.